Menter Ymgysllltu â Myfyrwyr Cymru

Un o nodweddion amlycaf addysg uwch yng Nghymru yw'r syniad o gynnwys myfyrwyr yn y broses o ddatblygu, darparu a rheoli eu profiad addysgol eu hunain. Mae cyfranogiad o'r fath yn gofyn am ymgysylltu ar lawer lefel ac ar lawer gwahanol ffurf a bydd yn digwydd yn bennaf mewn prifysgolion unigol wrth i fyfyrwyr gyfrannu at ddatblygu eu dulliau dysgu eu hunain

Nod yr ymagwedd hon yw sefydlu Cymru fel y lle gorau i fyfyrwyr astudio a rhoi cyfle i fyfyrwyr fod yn gysylltiedig â'r prosesau a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gwella eu profiadau dysgu eu hunain.

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn gweithio'n agos i gyflawni amcanion a nodau ar y cyd. Ffurfiwyd grŵp traws-sector yng Nghymru sy'n cynnwys Addysg Uwch Cymru (AUC), Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (NUS Cymru), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) a'r Academi Addysg Uwch (AAU). Nod y grŵp yw gweithio gyda'i gilydd i atgyfnerthu, rhannu ac adeiladu ar arferion da presennol sydd wedi cael eu canfod mewn dulliau ymgysylltu â myfyrwyr yng Nghymru[1], a dysgu gan bartneriaid ar draws y DU ac Ewrop er mwyn helpu SAUau a chyrff y sector AU yng Nghymru i gryfhau a gwella'n dulliau ni.

Gwerthfawrogi Adborth – *bydd canlyniadau digwyddiad yn y gorffennol yn cael dylanwad cadarnhaol ar yr un digwyddiad yn y presennol neu'r dyfodol*

Bydd myfyrwyr yn cyfrannu at ddatblygu'r profiad myfyrwyr drwy roi adborth gan mwyaf. Mae sut a phryd y mae myfyrwyr yn rhoi adborth yn amrywio'n fawr. Mae strwythurau effeithiol yn eu lle mewn prifysgolion yng Nghymru i gasglu ac ystyried adborth gan fyfyrwyr ar bob lefel o'r broses benderfynu; ategir hyn ar y lefel genedlaethol drwy gynnwys cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr yn uwch fforymau gwneud penderfyniadau cyrff ac asiantaethau'r sector yng Nghymru.

Mae prifysgolion bob amser yn chwilio am ffyrdd o adeiladu ar yr ymagwedd hon drwy:

- Ystyried sut y cynhwysir ac yr ymgynghorir â myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau am ddatblygiadau mewn darpariaeth AU yng Nghymru;

[1] (2006) Astudiaeth o Hyd a Lled ac Effeithiolrwydd Strwythurau Cyfredol Cynrychiolaeth Myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, gan York Consulting

- Adeiladu ar y trefniadau partneriaeth da rhwng y sefydliadau yng Nghymru i ganfod a rhannu arfer effeithiol;
- Ystyried canlyniadau arolygon ac adolygiadau, megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, er mwyn gwella ymgysylltu a chryfhau'r profiad myfyrwyr cyfan;
- Trafod sut y rhoddir cyfle i fyfyrwyr gyfrannu'n llawn at adolygiadau ansawdd a phrosesau archwilio;
- Edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gasglu a throsglwyddo adborth gan y corff amrywiol o fyfyrwyr.

Harneisio Arbenigedd - *rheoli a defnyddio rhywbeth neu rywun sydd â gwybodaeth, gallu neu brofiad helaeth*

Dylai ymgysylltu â myfyrwyr ganolbwyntio ar wella ansawdd y dysgu ar gyfer myfyrwyr heddiw ac yn y dyfodol. Mae myfyrwyr yn gwybod beth sydd ei eisiau arnynt o ran eu hanghenion dysgu a'u profiadau fel myfyrwyr. Gwyddant sut y maent hwy wedi sicrhau eu canlyniadau dysgu, sut y mae'r addysgu wedi'u cynorthwyo yn y broses hon, a sut y mae gwahanol ddulliau yn effeithio ar eu llwyddiant mewn gwahanol gyd-destunau.

Yng Nghymru, mae creu diwylliant lle y caiff myfyrwyr eu trin fel cyfranwyr arbenigol at y profiad myfyrwyr yn ymrwymiad strategol mewn llawer o brifysgolion, a cheir arweinyddiaeth gref ac agweddau cadarnhaol gan y staff a'r myfyrwyr.

Er mwyn hybu a chefnogi'r ymagwedd hon, bydd y grŵp traws-sector yn gweithio gyda'r prifysgolion i ystyried ffyrdd o:
- Hwyluso rhannu rhwng prifysgolion lawlyfrau arweiniad, polisïau a strategaethau ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth ac ymgysylltu â myfyrwyr;
- Gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r prifysgolion i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan lawn mewn prosesau adolygu allanol;
- Cynorthwyo prifysgolion a chyrff y sector i ddatblygu dulliau effeithiol o 'gau'r ddolen adborth' i ddangos i fyfyrwyr sut y mae eu cyfraniadau arbenigol wedi peri newid.

Gweithio mewn Partneriaeth – *y cysyniad o weithio gyda'n gilydd er lles pawb*

Mae dysgu mewn addysg uwch yn cael ei gyflawni drwy gydweithrediad agos rhwng prifysgolion a myfyrwyr ar hyd a lled Cymru. Un o ganlyniadau naturiol y cydweithrediad a deialog agos rhwng prifysgolion yw y byddant yn troi at ei gilydd i rannu eu profiadau o ymgysylltu â'u myfyrwyr. Yng Nghymru, ceir ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth rhwng myfyrwyr a staff yn y prifysgolion sy'n agor posibiliadau ar gyfer deialog ddilys ac adeiladol. Mae hyn, ynghyd â'r partneriaethau rhwng prifysgolion unigol, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer adborth mwy cyfannol a myfyriol ac ar gyfer gwella dysgu.

Er mwyn annog trafodaeth ar ddulliau o gynnwys myfyrwyr fel partneriaid, mae'r grŵp traws-sector yn bwriadu:
- Ysgogi trafodaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol am rôl a hunaniaeth myfyrwyr mewn sector AU sy'n prysur fynd yn fwyfwy amrywiol;
- Trefnu cyfleoedd ar gyfer SAUau i drafod a lledaenu syniadau a chysyniadau arloesol am rôl myfyrwyr mewn addysg uwch;
- Hwyluso creu rhwydweithiau o gynrychiolwyr cwrs hyfforddedig drwy'r ymgyrch 'Dweud eich Dweud' er mwyn hybu ymwneud adeiladol gan fyfyrwyr a hyrwyddo sianeli cyfathrebu i wella llwybrau adborth rhwng myfyrwyr a'u sefydliadau.